**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwella Gwasanaethau a Chyllid

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mawrth, 18 Ionawr 2022 am 9.30 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C A Holley (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
| --- | --- | --- |
| P M Black | P Downing | P R Hood-Williams |
| L James | M H Jones | P K Jones |
| J W Jones | D W W Thomas | |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
| --- | --- |
| Y Cynghorydd Rob Stewart | Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth (Arweinydd) |
| Ben Smith | Swyddog Adran 151 a'r Prif Swyddog Cyllid |
| Richard Rowlands | Rheolwr Cyflwyno a Pherfformiad Strategol |
| Emily Davies | Swyddog Craffu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): I E Mann a/ac B J Rowlands

---

55 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Datgelodd Ben Smith gysylltiad personol ag Eitem 6.

56 **Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni ddatganwyd pleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

57 **Cofnodion**

Ystyriodd y Panel lythyrau a chofnodion o gyfarfodydd blaenorol a chytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2021 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

58 **Cwestiynau gan y Cyhoedd**

Ni chafwyd cwestiynau gan y Cyhoedd

59 **Cynigion y Gyllideb 2022/23 - 2025/26**

Daeth yr Arweinydd a'r Prif Swyddog Cyllid i'r cyfarfod i gyflwyno'r adroddiad ac ateb cwestiynau. Nodwyd y materion canlynol:

- Mae cyhoeddiadau am gyllideb a setliad Llywodraeth Cymru yn hwyr eto eleni.
- Nid yw hon yn gyllideb wedi'i ffurfio'n llawn eto, mae datblygiadau a chyhoeddiadau polisi pellach yn debygol o gael eu cyflwyno'r holl ffordd hyd at fis Mawrth 2022.
- A1.6 - Er mai syniad bras yn unig yw'r amlen amlinellol tair blynedd gan Lywodraeth Cymru, mae'n rhywbeth i'w groesawu'n fawr ac yn ddefnyddiol at ddibenion cynllunio'r gyllideb yn y tymor canolig.
- Holodd y Panel am dabl 1, nodyn 7, ynghylch dileu/defnyddio'r Gronfa Cyfartalu Cyfalaf (CER) yn y dyfodol. Esboniodd swyddogion fod y fformat hwn yn nodi sefyllfa gytbwys rhwng y blynyddoedd.
- A3.6 - Yn dilyn y cynnydd ariannol a gafwyd gan Lywodraeth Cymru (£33.9m) a groesewir, rhagwelir y bydd pob cyfarwyddiaeth (ac eithrio Cyllid) yn cael cynnydd cyffredinol mewn cyllidebau arian parod ar gyfer y flwyddyn nesaf o 7% o leiaf.
- A4.3 - hyd yn oed gydag arbedion, bydd cyllidebau Cyfarwyddiaetau'n dal i dyfu tua £80m yn gyffredinol dros 4 blynedd.
- A4.4 – Mae rhagdybiaeth y bydd cyllid Llywodraeth Cymru yn y dyfodol yn cynyddu 3.5% yn 2023/24, 2.4% yn 2024/25 a 2% wedi hynny.
- Cyfraddau chwyddiant uchaf mewn dros ddegawd, gyda chwyddiant yn debygol o fynd yn uwch o hyd. Ansicrwydd ynglŷn â Brexit a'r pandemig parhaus.
- A4.11 – Dyraniad grant bloc cyfalaf: £2m o ddiffyg a ddangosir yn Nhabl 4.
- A4.18 - argymhellir defnyddio'r Gronfa Cyfartalu Cyfalaf yn briodol wrth bennu siâp terfynol y gyllideb gyffredinol.
- A5 - nodwyd cynnydd sylweddol mewn arian parod yng nghyllidebau dirprwyedig ysgolion.
- Tabl 5 – Adolygiad o Arbedion Arfaethedig 2022/23 – Nododd yr Aelodau y dylai hyn ddarllen fel miloedd yn hytrach na miliynau.
- Mae Tabl 6 yn dangos cynigion cymedrol ar gyfer arbedion y gweithlu.
- Cododd Aelodau'r Panel ymholiadau ynghylch cynnydd posibl yn nhreth y cyngor. Esboniodd swyddogion fod incwm o Dreth y Cyngor ar hyn o bryd yn 1-2%, nad oedd unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud eto, dim ond mater o gyfansymio'r swm sydd ei angen i gydbwyso toriad cyntaf y gyllideb.
- Gwariant tybiedig Treth y Cyngor i fyny 3.5% ar gyfartaledd (ffigur CTSS Llywodraeth Cymru)
- A7 – Y broses ymgynghori
- Tabl 9 – cynigion cymedrol o ran arbedion staffio. Mae un swydd (Prif Swyddog) yn dal i fod mewn perygl ffurfiol o ddiswyddiad o ganlyniad i benderfyniad y cyngor a wnaed ym mis Tachwedd 2021.
- Mae sicrwydd setliadau'r blynyddoedd i ddod yn ddefnyddiol.
- Cafwyd tanwariant sylweddol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf ac mae hyn yn debygol eto eleni.

- Tynnodd yr Arweinydd sylw at alldro cadarnhaol ar ddiwedd 2021.
- Holodd yr Aelodau am sefyllfa'r Awdurdod Tân mewn perthynas â'r cynnydd amcangyfrifedig yn ardoll yr Awdurdod Tân o 3 - 3.5%.
- A6.2 – Holodd Aelodau'r Panel ynghylch adolygiadau cyflog a graddio, a chostau lleihau staff. Esboniodd swyddogion fod ôl-groniad o apeliadau graddio eto i ddod drwodd, ond o'i gymharu â'r gyllideb roeddent yn fach iawn o ran maint. Nodwyd nad oes llawer o swyddi lle mae perygl o ddiswyddiad o ganlyniad i'r gyllideb.
- Esboniodd yr Arweinydd fod Llywodraeth y DU/y Trysorlys wedi cynnwys arian ar gyfer COVID yn setliad Llywodraeth Cymru.
- Holodd Aelodau'r Panel am y Gronfa Cyfartalu Cyfalaf (gan gyfeirio at A.17 ac A4.18). Esboniodd swyddogion fod y Gronfa Cyfartalu Cyfalaf yn cael ei defnyddio i bontio rhai pwysau a llyfnhau rhai gwahaniaethau amseru dros nifer o flynyddoedd.
- Holodd Aelodau'r Panel am gyfrifiadau tebygol yn ymwneud â nodyn 18 (*yn dilyn cyflwyno'r Ardoll Gofal Cymdeithasol newydd, a adlewyrchir ar hyn o bryd fel cynnydd i gyfraddau Yswiriant Gwladol)*. Esboniodd swyddogion y bydd ychydig flynyddoedd cyn y gall ffigurau fod yn sicr o ran symiau a godwyd gan Drysorlys EM gan y dreth newydd a'r symiau a dderbyniwyd ac a wariwyd yn y pen draw gan gynghorau.

## 60 **Adroddiad Monitro Perfformiad Chwarter 2 2021/2022**

Cyflwynodd y Rheolwr Cyflwyno a Pherfformiad Strategol drosolwg o'r adroddiad i Aelodau'r Panel. Nodwyd y materion canlynol:

- Mae pandemig parhaus COVID-19 wedi dod â heriau a newidiadau enfawr i'r cyngor, ei wasanaethau a'i weithlu. Nid yw'r cyngor erioed wedi ymgymryd â newid o'r fath mewn cyfnod mor fyr ac mewn amgylchiadau mor heriol.
- Bernir perfformiad gan ddefnyddio'r canlyniadau a fesurir gan ddangosyddion perfformiad y Cynllun Corfforaethol ac fel arfer caiff ei gymharu â thargedau y cytunwyd arnynt. Nid yw'r targedau ar gyfer 2021/22 wedi'u pennu oherwydd effaith barhaus COVID-19 a'r cyfyngiadau symud cysylltiedig.
- Mae alldro Ch2 2021/22 yn dangos bod 15 o'r 26 (58%) o ddangosyddion perfformiad tebyg y Cynllun Corfforaethol yn dangos gwelliant neu wedi aros yr un fath o'i gymharu â Ch2 2020/21.
- Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith bod y fframwaith perfformiad gwasanaethau cymdeithasol newydd wedi cyfrannu at ddangosyddion newydd, ac felly nid oedd unrhyw ddata tebyg i adrodd amdano. Felly, nid yw'r llinell sylfaen ar gael tan y flwyddyn nesaf.
- Roedd yr adroddiad yn adlewyrchu'r prinder cenedlaethol o ran niferoedd y gweithlu yn y gwasanaethau cymdeithasol, yn enwedig mewn gwaith gofal plant a gofal cartref i oedolion.
- Mewn perthynas â'r dangosyddion Diogelu, er y bu cynnydd yn nifer y plant a gefnogir, bu gostyngiad yn nifer yr Achosion Amddiffyn Plant a Phlant sy'n Derbyn Gofal.

- Gwnaeth y Panel sylwadau ar yr heriau a wynebir, yn arbennig, gan adran y Gwasanaethau Cymdeithasol, wrth roi System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru ar waith.
- Tynnodd swyddogion sylw at ddata perfformiad a oedd yn ymwneud â cheisiadau cynllunio, gan esbonio bod eleni wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd sydd, ynghyd â swyddi gwag staff, wedi golygu gostyngiad anochel ond cymharol fach mewn perfformiad o'i gymharu â C2 y llynedd.
- Cydnabu'r Panel nad yw data perfformiad llawn ar gael eto oherwydd effaith barhaus y pandemig, a byddai'n ailedrych ar yr adroddiad hwn yn fanylach y flwyddyn nesaf.

61 **Cynllun Gwaith**

Nododd y panel y Cynllun Gwaith

62 **Llythyrau**

Derbyniodd y Panel yr ohebiaeth a anfonwyd yn dilyn cyfarfod y Panel a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2021.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.30

**Cadeirydd**